Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Cyfarfod ar y Cyd y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc

**Cam-drin Domestig a'i Effaith ar Blant**

**Noddir gan Mark Isherwood AC, Bethan Sayed AC a David Melding AC**
**6 Chwefror 2019**
**Ystafell Briffio'r Cyfryngau, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Yn bresennol**

*Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)*
*Gwendolyn Sterk - (Ysgrifenyddiaeth) Cymorth i Ferched Cymru*
*Elinor Crouch-Puzey - Cymorth i Ferched Cymru*
*Tina Reece - Cymorth i Ferched Cymru*
*Claire Short - Lucy Faithfull Foundation*
*Helen Mary Jones AC*
*Anne Hubbard - Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru*
*Mia Rees - Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru*
*Gethin Matthew-Jones - Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant*
*Victoria McMillan - Coleg Caerdydd a'r Fro*
*Ceri Crichton - NSPCC*
*Catriona Williams OBE - Plant yng Nghymru*
*Hannah Davey - Plant yng Nghymru*
*Rebecca Watkins - NSPCC*
*Vivienne Laing - NSPCC*
*Hannah Davey - Plant yng Nghymru*
*Rosalie Stonehouse - NSPCC*
*Kirsty Eason - Byddin yr Iachawdwriaeth*
*Melanie Williams - Canolfan Plant Dewi Sant*
*Nicola Davies - Canol Dinas Casnewydd*
*Alyson Marchant - Canol Dinas Casnewydd*
*Amy Price - Unigolyn*
*Ann Dann - Hafan Cymru*
*Menna Thomas – Barnardo’s*
*Iwan Williams - Gofal Cymdeithasol Cymru*
*Jackie Aplin - Swyddfa Joyce Watson AC*

**Ymddiheuriadau:**

*Bethan Sayed AC*
*Hilary Watson – Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Dr Jonathan Evans – Prifysgol De Cymru*
*Michelle Whelan - Gwasanaethau Trais Calan*
*Janine Bennett - Unigolyn*
*Avril Hooper - Cyngor Caerdydd*
*Carl Harris - NSPCC*
*Llyr Huws Gruffydd AC*

**Cofnodion**

**Cyflwyniad:**

Croesawodd Mark Isherwood AC bawb i'r cyfarfod gan gyflwyno'r cefndir ar gyfer y sesiwn. Tynnodd Mark sylw at rai pwyntiau allweddol o'r papur briffio a lansiwyd yn y cyfarfod, a ysgrifennwyd gan Gymorth i Ferched Cymru, yr NSPCC a Phlant yng Nghymru, sy'n edrych ar gam-drin domestig a'i effaith ar blant. Mae'r pwyntiau y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

- Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol 2018-2021 yn cydnabod y gall fod yn dyst i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais

rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc, a gall effeithio ar eu diogelwch, iechyd, lles a chyrhaeddiad addysgol. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer atal, diogelu a chefnogi pob dioddefwr, gan gynnwys plant, a thrwy hynny wireddu hawliau plant at ddiogelwch a chefnogaeth i wella yn dilyn cam-drin domestig.

- Mae bwlch rhwng bwriad polisi y Ddeddf/y Strategaeth Genedlaethol a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant sy'n goroesi ar draws Cymru. Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru yn nodi bod yr arian a geir i ddarparu ar gyfer plant a phobl yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig yn ysbeidiol ac yn anghyson.

- Dywedodd aelodau Cymorth i Ferched Cymru fod 266 o blant a phobl ifanc yn byw mewn llochesau bob chwarter rhan o'r flwyddyn y llynedd ledled Cymru. Mae hyn yn dangos cynnydd o 14% o flwyddyn i flwyddyn.

**Yr hyn y mae'r briff yn galw amdano:**

- Cyllid cynaliadwy i sicrhau gwasanaethau arbenigol penodol ar gyfer plant a phobl ifanc
- Strategaethau lleol a byrddau diogelu i gydnabod bod cam-drin yn effeithio'n uniongyrchol ar blant
- Gweithredu'r dull addysg gyfan ledled yr holl sefydliadau addysg.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Eglurodd Mark Isherwood AC fod copïau o adroddiad y CCB wedi cael eu rhannu a gofynnodd a oedd unrhyw un yn yr ystafell am wneud newidiadau; ni awgrymwyd unrhyw newidiadau.

Cadarnhaodd Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru, bod y cyd-gadeiryddion presennol - Mark Isherwood AC a Bethan Sayed AC - wedi cael eu henwebu i barhau â'u rolau, a chynigiwyd hyn i aelodau'r cyfarfod; cytunwyd ar hyn.

Cynigiodd Mark Isherwood AC i Gymorth i Ferched Cymru barhau fel ysgrifenyddiaeth, gan nodi bod yr unigolyn a enwebir ar gyfer unrhyw fusnes yn newid o Gwendolyn Sterk i Elinor Crouch-Puzey; cytunwyd ar hyn.

**Trafodaeth:**

**Catherine Phillips, Cymorth i Ferched Cymru:** Siaradodd Catherine am y canfyddiadau cychwynnol ar ôl ymgynghori â phlant sy'n defnyddio gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) arbenigol a gweithwyr cymorth plant ledled Cymru. Dyma'r pwyntiau allweddol a godwyd:

- Mae gweithwyr cymorth plant, sy'n gweithio gyda ffoaduriaid ac yn y gymuned, wedi'u gwasgaru'n denau ac yn aml yn gorfod teithio pellterau hir i ymweld â phlant wrth ymgymryd â'u llwythi achosion.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth yn elwa ar y cymorth y maent yn ei gael.
- Mae hefyd yn glir bod y gefnogaeth i blant a phobl ifanc yn fuddiol i'r rhiant nad yw'n cam-drin, yn enwedig os yw aelodau'r teulu yn defnyddio cymorth unigol o fewn yr un

gwasanaeth.

- Roedd defnyddio gwasanaethau arbenigol yn eu galluogi i ddeall eu profiadau, tra dywedodd sawl cyfranogwr eu bod yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt a'u bod wedi'u dadrymuso gan wasanaethau generig.
- Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc a phlant yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i fod yn destun y loteri cod post.
- Cyfyngiadau ar gyllid, adnoddau a chapasiti yw'r prif ffactorau sy'n rhwystro'r holl blant yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag cael y gefnogaeth y dymunant ac y mae arnynt ei hangen.
- Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r effaith hirdymor ar blant, weithiau na ellid ei hadfer.
- Mae plant am i bobl wrando arnynt a'u clywed.

**Natasha, Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu i Oroeswyr (SEEds):** Mae Natasha yn oedolyn sydd wedi goroesi cam-drin domestig. Mae'n credu mai'r rheswm am hyn oedd am iddi brofi cam-drin yn ystod ei phlentyndod. Mae gan Natasha anabledd ac mae o'r farn bod hyn wedi gwneud y gwasanaethau a'r ysgol dybio bod ei hymddygiad yn ymwneud â bod yn fyddar, yn hytrach nag unrhyw un a oedd yn ymchwilio i'r hyn a oedd yn digwydd yn y cartref.

Disgrifiodd Natasha sut roedd y cam-drin a brofodd gan ei llystad wedi'i chynllunio i 'ddysgu iddi wybod ei lle'.

Ni ddywedodd Natasha wrth neb am y gam-drin am nad oedd yn credu y byddai unrhyw un yn ei chredu ac roedd ganddi gywilydd. Gan ei bod mor unig ac nad oedd neb yn siarad am gam-drin mewn ysgolion, roedd yn credu bod yr hyn a oedd yn digwydd yn 'arferol'. Er gwaethaf y ffaith bod y gwasanaethau a'r ysgol wedi ymwneud â'r mater, ni lwyddodd neb i nodi'r arwyddion o gam-drin. Dim ond pan oedd yn oedolyn a cheisiodd am gymorth i ddod i ben â cham-drin gan bartner y dechreuodd ddysgu nad hi oedd ar fai am yr hyn a ddigwyddodd.

Dywedodd ei llystad wrthi na fyddai byth yn cyflawni unrhyw beth - bellach mae gan Natasha ddwy radd, PHD, ac mae'n rhedeg ei busnes ei hun!

**David Melding, AC a Stori Rory:** Cyflwynodd David Melding AC glip sain gan yr NSPCC o'r enw Stori Rory. Dyma stori dyn ifanc a gafodd ei gam-drin hefyd gan lystad yn ystod ei blentyndod. Siaradodd Rory am y cam-drin a brofodd ef a'i fam a'r cyfleoedd i ymyrryd a gollwyd. Pryd bynnag yr oedd unrhyw un yn gofyn cwestiynau, byddai ei lystad, a oedd yn gyfeillgar iawn y tu allan i'r cartref, yn rhoi esboniadau, a byddai'r rhain yn cael eu derbyn. Pan gafodd ei ddwyn yn euog am ei droseddau niferus yn erbyn Rory a'i fam, yr unig gosb a roddwyd iddo oedd gwasanaeth cymunedol.

**Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:** Mynegodd Julie Morgan AC ei chydymdeimlad â'r storïau a dywedodd eu bod yn enghreifftiau o'r hyn y mae angen rhoi sylw iddo, yn ogystal â chyfleoedd amlwg lle y dylai'r gwasanaethau generig wedi nodi'r cam-drin. Mae Julie wedi ystyried storïau'r goroeswyr a gwaith mapio canfyddiadau'r gwasanaeth, a bydd yn dychwelyd yn ôl i'w hadran â'r rhain.

**Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru:** Siaradodd Gwendolyn am ba mor effeithiol yw gwasanaethau i blant pan fyddant ar gael, gan arwain at ryddid hirdymor yn dilyn cam-drin. Defnyddiodd enghraifft o wyddonydd o NASA a gafodd ei gam-drin pan oedd yn blentyn, a ddywedodd mai'r gwasanaethau arbenigol yng Nghanolbarth Cymru oedd yn gyfrifol am ei adferiad a'i allu i 'estyn i'r sêr'. Ond y gwir amdani yw ein bod yn parhau i wynebu diffyg cyllid cyson a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyllid cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol ond mae'n rhaid i hyn gynnwys cyllid uniongyrchol ar gyfer gwaith plant arbenigol - rhaid iddo gynnwys gwaith argyfwng, atal, ac ymyrraeth gynnar.

**Vivienne Laing, yr NSPCC:** Tynnodd Vivienne sylw at ganfyddiadau'r NSPCC sy'n nodi y bydd un o bob pum plentyn yn profi cam-drin. Er na fydd pob oedolyn sy'n profi trawma yn ystod eu plentyndod yn datblygu anghenion iechyd meddwl fel oedolion, mae'r NSPCC wedi canfod bod y niferoedd yn uwch. Siaradodd Vivienne am y gwasanaeth cwnsela therapiwtig yn seiliedig ar dystiolaeth, a ddatblygwyd gan yr NSPCC ac a ddefnyddiwyd gan Rory. Ni fydd yn bosibl i'r rhan fwyaf o blant gael mynediad ato o ganlyniad i ddiffyg arian. Siaradodd Vivienne am bwysigrwydd ariannu gwasanaethau i ffoaduriaid a gwasanaethau cymunedol i gefnogi plant, yn ogystal â phwysigrwydd strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer achosion o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys gwasanaethau i blant a'r gwaith atal a ymgorfforir mewn ysgolion.

**Catriona Williams OBE, Plant yng Nghymru:** Pwysleisiodd Catriona fod prosiect ‘Young Wales’ Plant yng Nghymru wedi nodi bod addysg ar berthnasoedd iach/ABCh yn fater i bobl ifanc, yn enwedig o ran y cwricwlwm newydd; yn ogystal, mae pobl ifanc o'r farn bod perthnasoedd iach yn rhan allweddol o wella iechyd meddwl/llesiant.

**Gofynnodd Helen-Mary Jones AC** am arweiniad ynghylch beth sy'n cynrychioli ymateb da a beth yw'r costau ar gyfer hynny. Po fwyaf penodol y gall Aelodau'r Cynulliad fod wrth holi Gweinidogion, y mwyaf tebygol y byddwn yn gweld newid.

**Pwyntiau trafod o'r llawr:**
Soniodd Hilary, aelod o'r Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu i Oroeswyr, am ei phryder am nad oedd yr un aelod o'r staff yn ysgol uwchradd ei phlentyn wedi cael hyfforddiant ar gam-drin domestig. Os yw un o bob pump o blant yn cael eu cam-drin, mae hyn yn effeithio ar eu dysgu, felly mae'n bwysig i ysgolion wneud mwy i gefnogi plant sy'n profi trais a cham-drin.

Tynnodd Gwendolyn Sterk sylw at y 'dull addysg gyfan' sy'n cynnwys argymhelliad y dylai pob aelod o staff gael hyfforddiant ar drais a cham-drin. Mae Estyn wedi canfod nad yw ysgolion yn ymwybodol o'r canllawiau, felly er bod gwybodaeth ar gael, nid yw'n cael ei rhannu'n gyson.

Esboniodd cynrychiolydd o Spectrum fod gan y prosiect gyllid ar gyfer 8.5 o swyddogion cyswllt ysgolion i bob ysgol yng Nghymru. Felly mae angen rhagor o arian er mwyn cyrraedd mwy o ysgolion.

Mynegwyd pryder am y system cyfiawnder teuluol a sut y mae'n effeithio ar ddiogelwch uniongyrchol mamau a phlant a'u hadferiad. Cadarnhaodd Gwendolyn Sterk fod y pryder hwn wedi cael ei rannu â Llywodraeth y DU sawl gwaith yn ogystal â'r argymhellion a wnaed yn ddiweddar i'r ymgynghoriad ar y Bil Cam-drin Domestig.

Codwyd y mater ynghylch pam yr oedd yn bwysig i wasanaethau generig beidio â 'gwneud rhagdybiaethau' ynglŷn â defnyddwyr gwasanaeth, gan gyfeirio at bwynt Natasha'n gynharach mai'r dyb oedd ei hanabledd oedd wrth wraidd ei hymddygiad, yn hytrach na cham-drin, a bod angen i wasanaethau fabwysiadu dull cyfannol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Camau i'w cymryd:**

- Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol i rannu'r briff gyda phob Aelod Cynulliad/Gweinidogion.
- Bydd y prif bwyntiau o'r sesiwn briffio ar y cyd yn cael eu hamlygu mewn llythyr a'u hanfon at Weinidogion y Llywodraeth, yn enwedig Jane Hutt AC a Julie Morgan AC
- Bydd Cymorth i Ferched Cymru, yr NSPCC a Plant yng Nghymru yn darparu gwybodaeth bellach i Aelodau'r Cynulliad o ran beth sy'n cynrychioli ymateb da a'r costau am hynny.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 13:30.**